Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Disgrifiad Swydd: Uwch-swyddog Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Teitl y Swydd:** | Uwch-swyddog Ymchwil |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Data |
| **Cyflog:** | Gradd 9: £46,735 i £55,755 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos (100% CALl) |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Dyma swydd am gyfnod penodol tan 30 Medi 2027 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Gwahoddir ceisiadau ar gyfer swydd yr uwch-epidemiolegydd ymchwil mewn atal hunanladdiad ar gyfer Rhaglen Atal Hunanladdiad ADR ym Mhrifysgol Abertawe, a arweinir gan yr Athro Ann John.<br><br>Ymunwch a thîm amlddisgyblaethol o fri yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe i gynnal ymchwil i iechyd meddwl y boblogaeth, gan ddadansoddi set ddata o'r radd flaenaf ar lefel y boblogaeth sy'n cynnwys biliynau o gofnodion gan ddefnyddio cymysgedd o fethodolegau dadansoddol traddodiadol a newydd. Dyma gyfle cyffrous i wneud gwaith sy'n bwysig ac sydd â'r potensial i gael effaith go iawn ar atal hunanladdiad, gwella ymyriadau hunan-niwedio a dylanwadu ar benderfyniadau polisi yng Nghymru. Byddwch yn gweithio'n aml gyda setiau data neu gysylltedd newydd fel rhan o'r rhaglen ADR.<br><br>Mae ADR Cymru yn dod ag arbenigwyr gwyddor data o fri rhyngwladol, academyddion blaenllaw a thimau arbenigol ynghyd o fewn Llywodraeth Cymru i gynhyrchu tystiolaeth sy'n llunio penderfyniadau ynghylch polisi yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio i'r eithaf ar y defnydd o ddata dienw a diogel i lywio'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, a fydd yn gwella bywydau pobl yng Nghymru yn y pen draw. Gallwch ddarllen rhagor am hyn yma [ADR Wales - ADR UK] |
| | 1. Prosesu a dadansoddi data iechyd a gofal cymdeithasol ar raddfa fawr o ffynonellau amryfal ym Manc Data SAIL, gan gynnwys cofnodion iechyd, data gofal cymdeithasol, a data addysgol, gan ddatblygu setiau data cysylltiedig er mwyn galluogi ffenoteipio dwfn a galluogi e-garfannau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl i ateb cwestiynau ymchwil.<br>2. Gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (NCSR), y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH), DATAMIND, Hyb Platfform Ymennydd a Genomeg Iechyd Meddwl UKRI, HDRUK, Banc Data SAIL a thimau eraill gan gefnogi'r gwaith o drosi cwestiynau ymchwil yn ddulliau y gellir eu cynnal yn erbyn y banc data SAIL.<br>3. Arwain a chynnal dadansoddiadau data hynod gymhleth a strwythuredig, gan reoli gwaith glanhau a chysoni data'n briodol a dogfennu'r fethodoleg.<br>4. Ysgogi a chynnal ymchwil mewn modd rhagweithiol, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau a dangos lefel o annibyniaeth wrth bennu pwyslais a chyfeiriad yr ymchwil honno.<br>5. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi. Mae ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig rhai sydd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid (e.e. rhyngwladol) neu gyhoeddiadau cymharol, yn rhan hanfodol o'r rôl. Ar y radd hon, bydd yn ofynnol i chi gyhoeddi nifer sylweddol o bapurau fel y prif awdur.<br>6. Nodi ffynonellau allanol o gyllid i gynnal eich gwaith eich hun a gwaith eraill yn y Gyfadran a chyflwyno ceisiadau am y cyllid hwnnw. Bydd rhan hanfodol o'r gwaith yn cynnwys cyflwyno ceisiadau am gyllid ymchwil allanol ar eich liwt eich hun, lle y caniateir hyn, neu arwain y broses o lunio'r cais lle na chaniateir i chi wneud hyn.<br>7. Meddu ar lefel uchel o gymhelliant a'r gallu i ddefnyddio'ch menter a'ch sgiliau datrys problemau i bennu rhaglenni a methodolegau ymchwil ar y cyd â'ch cydweithwyr neu Bennaeth y Gyfadran ac eraill yn y Brifysgol a'r tu allan iddi. |

| | |
|---|---|
| | 8. Cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol, a datblygu rhwydweithiau o'r fath, er mwyn meithrin enw da personol, nodi ffynonellau cyllid, creu incwm, sicrhau prosiectau ymgynghori neu feithrin perthnasoedd proffesiynol.<br>9. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n ddidrafferth, a helpu i gynyddu ei phroffil allanol yn y ddisgyblaeth.<br>10. Rheoli, cyfarwyddo neu oruchwylio gwaith eraill, er enghraifft mewn timau ymchwil neu brosiectau.<br>11. Cyfrannu at raglenni dysgu ac addysgu yn y Gyfadran a goruchwylio myfyrwyr ôl-raddedig neu fyfyrwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau ymchwil yn ôl yr angen.<br>12. Sicrhau eich bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y ddisgyblaeth, o ran eu harwyddocâd penodol a chyd-destun ehangach y datblygiadau hyn.<br>13. Yn ôl y gofyn, gweithredu fel cynrychiolydd neu aelod o bwyllgorau, gan achub ar y cyfle i ehangu'ch profiad a'ch proffil proffesiynol.<br>14. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddarparu tystiolaeth, nodi anghenion datblygu, gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran cyfnod prawf, arfarnu ac adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi.<br>15. Ufuddhau i brotocolau arferion gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith.<br>16. Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil neu weinyddol eraill neu ymgymryd â gweithgareddau o'r fath sy'n briodol i'ch profiad a'ch sgiliau, yn ôl cyfarwyddyd Pennaeth y Gyfadran/Sefydliad neu unrhyw un arall a ddirprwyir i weithredu â'i awdurdod. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 17. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>18. Cyflawni'r swydd a'r holl weithgareddau'n unol â pholisïau iechyd a diogelwch a chynaliadwyedd a systemau rheoli, er mwyn lleihau'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o weithgareddau'r gwaith.<br>19. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>20. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran / Gyfarwyddiaeth / Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. PhD neu gyfwerth mewn Epidemioleg, Gwyddor Data, Seiciatreg, Iechyd Cyhoeddus neu ddisgyblaeth gysylltiedig.<br>2. Dangos hanes helaeth o gyhoeddi, yn enwedig fel y prif awdur.<br>3. Tystiolaeth o gyflwyno ceisiadau am gyllid ymchwil allanol yn annibynnol, neu arwain y broses o lunio cais.<br>4. Y gallu i ddangos rhywfaint o annibyniaeth wrth bennu ffocws a chyfeiriad yr ymchwil.<br>5. Profiad blaenorol o addysgu neu o ddarparu cymorth dysgu neu dystiolaeth o'r gallu i ymgymryd â hyn.<br>6. Sgiliau rheoli prosiect a phrofiad o reoli prosiect ymchwil neu waith tebyg<br>7. Dangos dealltwriaeth o gysyniadau cronfeydd data perthynol a phrofiad o'u defnyddio.<br>8. Profiad o weithio gyda data cysylltiedig mawr iawn. Yn benodol, gweithio gyda data cyffredinol megis cofnodion meddygon teulu a derbyniadau i'r ysbyty.<br>9. Tystiolaeth o'r gallu i adeiladu a defnyddio ymholiadau SQL cymhleth i archwilio setiau data mawr a chymhleth.<br>10. Tystiolaeth o'r gallu i gynnal dadansoddiad priodol ar setiau data mawr gan ddefnyddio iaith ystadegol/raglennu megis R, Stata neu Python.<br>11. Dangos dealltwriaeth o eiriau codio clinigol a'u defnydd yn y GIG.<br>12. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>13. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br>**Meini Prawf Dymunol**<br>14. Profiad o oruchwylio prosiectau ymchwil myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig.<br>15. Tystiolaeth o ymrwymiad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus |

| | |
|---|---|
| | 16. Profiad ôl-ddoethurol a thystiolaeth o waith ymchwil cyhoeddedig sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, hunanladdiad a/neu hunan-niwed.<br>17. Profiad neu ddealltwriaeth o ddefnyddio technegau epidemiolegol sy'n gysylltiedig â dulliau canfod achosion (e.e. arbrofion naturiol, dyluniadau ymlaen llaw, wedyn a hydredol, mesurau rheoli negyddol, dadansoddi sgôr tueddiadau) ar setiau data mawr.<br>18. Profiad o epidemioleg genetig/geneteg y boblogaeth neu wybodaeth am y maes.<br>19. Profiad o oruchwylio prosiectau myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Marcos Del Pozo Banos (m.delpozobanos@abertawe.ac.uk)<br>Amanda Marchant (a.l.marchant@abertawe.ac.uk) |